Cyngor y Bugail iw Braidd.

SEF,

Llythyr oddiwrth Eglwyſwr, at ei

BLWYFOLION;

Yn Cynwys

Anogaeth Ddifrifol

IDDYNT,

I ofalu am eu Heneidiau.

A

Pharodtoad i'w cymhwyſo i dderbyn Lleſhad ac Adeiladaeth oddiwrth ei holl Athrawiaethau ef iddynt rhag llaw.

LLUNDAIN,

Argraphwyd gan *J. B.* i'r Awdwr. 1700.

GWYDDORION

Penigol a Mân.

1. *Rhufeinig.*

A B C CH D DD E F FF G NG H I J K L LL
M N O P PH Q R S T TH U V W X Y Z.

a b c ch d dd e f ff g ng h i j k l ll m n o p ph
q r f s t th u v w x y z, &c.

Y Bogeiliaid.

a e i o u w y.

---

2. Italic.

A B C CH D DD E F FF G NG H I J K L LL
M N O P PH Q R S T TH U V W X Y Z.

a b c ch d dd e f ff g ng h i j k l ll m n o p ph q r
f s t th u v w x y z, &c.

Y Bogeiliaid

a e i o u w y.

LLYFRGELL
GENEDLAETHOL
CYMRU

Annogaeth Ddifrifol Gweinidog iw Blwyfolion i Ofalu am eu Heneidiau.

Fy Anwyl Garedigcaf Gymmydogion.

Dymuniad fy Nghalon a'm gweddi ar Dduw troſoch, yw eich bod yn Gadwedig; ac mi a Ymegniaf byth yn ddiragrith, trwy bôb Moddion Criſtnogol a fedrwyf feddwl am danynt, ar hyfforddio eich Iechydwriaeth. A chan nad oes llê i mi obeithio y gallaf, trwy *Ddyſceidiaeth*, neu *Argyhoeddiad* neu *Athrawiaeth mewn Cyfiawnder*, annog y cyfryw ac na ddeallant mor werthfawr i'u Heneidiau yw, iddynt eu hymddwyn eu hunain yn gyfattebol i'r Hyfforddiadau a oſodwyf o'u blaen er daioni i'r unrhyw; Yr wyf yn gweled yn anghenrhaid i mi oſod ger eich bron gyfryw Yſtyriaethau ac a'ch gwnelo yn wîr yſtyriol o anrhaethadwy odidowgrwydd eich Eneidiau anfarwol, er mwyn eich cymhwyſo i dderbyn mwy lleſhâd oddiwrth fy Llafurau o hyn allan.

Nid wyf yn ammeu, nad ydych yn credu fôd gennych Eneidiau. Fy Swydd i yw eich cyffroi a'ch cynhyrfu i Ofalu yn ddifrifol am eu Dedwyddwch tragwyddol hwynt, y Gofal angenrheitiaf yn y byd: ac etto, 'r wyf yn ofni nad oes ond ychydig feddwl am dano: canys ped fae Dynnion yn gyffredinol yn meddwl am ofalu dros eu Heneidiau, ni byddai bofibl i'rhan fwyaf o'r byd fyw fal y maent; Ni threuliaent mo'u holl Oſal

a'u Llafurau er darparu Cynhaliaeth i'w Cyrph darfodedig, a llwyr eſgeuluſo y rhan odidogcaf o honynt eu hunain, ſêf eu Heneidiau.

Yn wîr pe byddau Ddynnion yn meirw megis Anifeiliaid yſcrublaidd, a bôd cwbl ddiben o honom pan ddiwerthid ein Cyrph i'r pridd; ped fae'r bêdd yn terfynu ein hôll Obaith a'n Hofn, a ninnau yn ymchwelyd i'r Llwch o'r hwn i'n defnyddiwyd, i aros yn yr unrhyw hyd dragywyddoldeb; yna ni a allem *Fwytta*, ac *Yfed*, a chymmeryd ein digonoldeb o Felyſwedd yn y byd hwn megis y mae gormod yn gwneuthur: Eithr os yw'r Enaid yn ôl ei ymadawiad o'r Corph yn myned yn ddiattreg i gyflwr newydd o Ddedwyddwch neu Drueni; Os oes Adgyfodiad i'r Cyfiawn, a'r Anghyfiawn, megis yn ddiamai y mae; os gerfydd rhoddi Cyfrif am bôb pêth a wnaethpwyd yn y cnawd pa un bynnag a fyddo ai Da, ai Drwg; os trefnir ein Cyflwr tragywyddol i ni mewn Gwynfyd, neu Boenau, yn ôl ein hymddygiad yn y Bywyd hwn, megis yn ddiamai y gwneir; yna mi a dybygwn fôd yn anghenrhaid i bawb o honom edrych yn ddyfal o'n hamgylch, ni a ddylaem ddwys-yſtyried pâ bêth y buom yn ei wneuthur, pâ fodd y treuliaſom ein hamſer hyd yn hyn; a mynnu gwybod i bâ Lê y mae'r Llwybr yr'ym ni arno yn ein harwain ni; a phâ bêth a fydd ein Cyflwr tragywyddol.

Er mwyn eich annog a'ch cynhyrfu i oſod eich Meddyliau ar yr Yſtyriaethau pwyſfawr hyn, y Ffordd oraf, a chyffelypaf, yn ôl fy nhyb i (trwy gynorthwy Rhâd Duw) yw dwyn ar ddeall i chwi anrhaethawl Werthfawrowgrwydd eich Eneidiau, mor llwyr anghenrhaid ac mor berthy-

noſ

nol yw i chwi Ofalu am eu Dedwyddwch; y mawr berigl y maent ynddo o Syrthio i Golledigaeth dragywyddol; Rhagorol Ragddarbodaeth ein Graſuſar Dduw er mwyn eu Cadw a'u diogelu; ac mor gyflawn y gall ef eu barnu i eithaf Trueni, os chwi yn ewyllyſgar a eſgeuluſwch Ofalu am danynt.

Yn Gyntaf gan hynny, yr wyf yn deiſyf arnoch yſtyried anfeidrol Odidawgrwydd a Gwerthfawrhydi'r Enaid. Cofiwch mai Hiliogaeth Duw ydyw, gwedi deilliaw yn ebrwydd oddiwrtho êf, deſcyn o honaw o'r Nef, oddiwrth *Dâd yr Yſprydion; Duw a yſprydoliaethodd Ddyn âg Anadl Einioes, a'r Dyn a wnaethpwyd yn Enaid byw*; Gen. 2. 7. *Duw a wnaeth Ddyn yn ôl ei Lun a'i Ddelw ei hùn,* (nid yn ôl Dull yr ún o'r Creaduriaid eraill) *ychydig is na'r Angylion, ac a'i coronodd â Gogoniant ac Anfarwoldeb.* Hyn yw ein Rhagorfraint priodol goruwch holl Greaduriaid y byd yma iſod, ſêf ein bôd yn gyffelyb i'n Gwneuthurwr, yr hwn yw'r Hanfod Odidogcaf yn y byd. Yr Uchelfraint yma a berthyn i'r rhan Yſprydol ac Anfarwol honno, yr Enaid; o herwydd pâ ham mae'n rhaid i ni ddeall fôd Enaid Dyn yn Hanfod dragwerthfawr o ragorol Arddercha wgrwydd.

Ein Cyrph ydynt *Dai o Bridd a'u Seiliau a Sylfaenwyd yn y Llwch.* Ac er eu bod (megis y dywed y Pſalmydd) *wedi eu gweithredu a'u llunio yn brydferth*, etto ni Chywreiniwyd hwynt mor gelfyddgar, ond er mwyn eu gwneuthur yn addas i waſanaethu'n Heneidiau, ac yn Bebyll cymmwys i groeſafu y rhanau Anfarwol hynny iddynt i breſwylio. Nyni a ddeallwn yn eglurach O-

didawgrwydd yr Enaid os yſtyriwn mor Werthfawr,ac Anrhydeddus ydyw yngolwg Duw y ſawl (fel y mae ini achos i feddwl) ſydd oreu yn deall Gwir-werth Eneidiau.

Y mae Duw, y Tâd, yn Ymhyfrydû'n ddirfawr gael ei alw a'i gyfrif *yn Gariwr Eneidiau*; ac o blegid hynny, yn Myſyrrio er tragywyddoldeb pa fodd iw dwyn atto ei hûn: fe a luniodd, ac a drefnodd ei holl Gynghoriadau, a'i Amcannion er tragywyddoldeb er eu mwyn hwynt, ac iw gwneu'd hwy yn Ddedwydd dros byth.

Ni thybiodd y Tâd ddim yn rhy ddrûd a dreulid er eu hachub a'u cadw,o herwydd pâ ham pan ragwelodd efe nad arhôſem ni yn y cyflwr hwnnw o Ddiniweidrwydd,a Dedwyddwch ym hâ un i'n crëuwyd ni ar y cyntaf, efe a ddychymmygodd ffordd i'n gwneuthur yn addas-gyfrannogion o Ddedwyddwch arall, er tywallt Gwaed ei Fâb Anwyl ei hun yn yr achos. Diai na chymmeraſei Dduw y fâth ofal am bethau Gwael; Na wnaethei yn ddiamai. Mae 'n Heneidiau yn Dragwerthfawr yn ei Olwg êf,gan ddarparu o honaw êf iddynt gyfryw anfeidrol Ddedwyddwch, ac na thybiodd ddim yn ormod i'w wneuthud er Sicrhau yr unrhyw Ddedwyddwch iddynt.

Dracheſen,Pan deilyngodd *Mab Duw* gymmeryd arno ei hun eu gwaredu oddiwrth Gaethiwed pechod a Llywodraeth y Cythrael; yr oedd hynny yn llawn ddigon o achos ganddo i ddeſcyn o'r Neſoedd i gymmeryd arno *Agwedd Gwâs*, i'w Ddiddiſio ei hun, i fyw'n Druenus ac i ddioddef poenau a Marwolaeth felldigedig o'u plegyd. A diamai, nad oedd Mynwes ei Dâd, a'i nefol Ogoniant ei hun yn bethau cyn Waeled yn ei Olwg,

ac

ac yr ymadawſei efe a hwynt am Goeg bethau: Na feddyliwch chwithau gan hynny mai pethau gwael ydyw eich Eneidiau, pan ddarfu i Fâb Duw weled y talaent farw er eu mwyn. Ni phrynaſei efe bethau Sâl yn y byd â chyfryw Brydwerth anfeidrol ag oedd ei werthfawr Eini- oes; Ie, efe ei hun a hyſpyſodd i ni y gwirionedd hwn mor Sicr a diamai nad allwn ni na'i wadu na'i wrthnebu; Sef, *nad yw Ennill yr holl Fyd yn ddigon o Daledigaeth am Golled un unig Enaid.*

Ac y mae'r *Yſpryd Glân* beunydd yn llafurio yn ddiwyd er hyfforddio Iechydwriaeth Eneidiau; Er eu mwyn hwynt, y darfu iddo Ef yn fynych ac mewn amryw foddion Ddarcuddio Ewyllys Duw i'r Byd, ac y Sicrhaodd yr unrhyw tryw gynnifer o Ryfeddodau; Er eu mwyn hwynt y mae ef beunydd yn ein rhagflaenu, ac yn ein cynnorthwyo a'i Radau; y mae ef yn ein hyſpryddoliaethu â Meddyliau da; yn cynneu ynom ddeiſyfiadau Duwiol, yn gwreſogi ein Tueddiadau oeredd; ac yn ennyn Duwioldeb yn ein Calonnau: y mae ef yn ein ffrwyno ac yn ein hattal oddiwrth Bechod, yn ein ceryddu, ac yn ein hargyhoeddi pan droſeddom; y mae ef beunydd drwy deirion erfyniadau yn ymgreſu, ac yn ymbil â ni, fel y gallo os yw boſſibl ein deffro i yſtyried ein perygl, ein cynhyrfu, a'n pryſyro i ddilyn y Llwybrau a'n harweiniant i ddiogelwch a Dedwyddfyd. Mor Werthfawr gan hynny yw ein Heneidiau pan ydynt yn haeddu yr holl ofal a'r drafferth y mae'r Gwynfydedig Yſpryd yn eu cymmeryd er mwyn eu cadwedigueth a'u dedwyddwch!

Yr *Angylion da* ydynt Yſprydion gwaſanaeth-

gar er daioni Eneidiau; y mae'nt yn Gwerſyllu o'u hamgylch, ac ni thybiant yn Sâl eu ſwydd i noddi ac ymgyfeilliach â hwynt, y mae'nt beunydd yn parod-ddiſgwyl i dderbynEneidiau Dynnion Da, pan ymadawont a'r Cyrph; y mae'nt yn gorfoleddu o herwydd Ymchweliad Eneidiau; yr hyn ſydd Siccr Arwydd o'u bôd yn eu hoffi yn ddirfawr.

Y *Cythreuliaid* hefyd a wyddant nad oes dim mor werthfawr yngolwg y Nêf ac yw Eneidiau dynion; ac o herwydd hynny, y mae'nt hyd eithaf eu gallu yn ceiſio eu hudo, a'u diniſtrio, fal y dangoſont wrth hynny eu hechryſlonaf ddryganiaeth, a'u cynddeiriogcaf falais yn erbyn Duw. Cenſigennus ydynt o blegid yDedwyddwch y mae Dynion yn addas i'w dderbyn, ac o herwydd hynny y gwnânt eu gwaethaf er eu difetha, ac a orfoleddant pan gyflawnont eu bwriadau.

Chwi a welwch bellach, fôd yr Enaid yn Dragwerthfawr. Pa faint o ddyled gan hynny ſydd arnoch i ofalu am dano? pa Wallſynwyr, ac ynfydrwydd yw i chwi dreulio eich holl ofalon a'ch myfyrdodau, eich holl lafur a'ch amſer yn darparu i'r corph, ac eſgeuluſo y rhan Werthfawr anfarwol honno o'r eiddoch, ſef yr Enaid, megis pêth na haeddai ddal ſulw arno neu edrych atto! Yn enwedig os yſtyriwch.

Yn Ail, *Mai colled yr Enaid yw'r anhawſaf ei dioddef o'r holl golledion*; Canys yn wir fe ellir colli'r Enaid, nid o herwydd y diddymmir, neu y paid efe a bôd, (da a tyddei i ddynion drygionus pê bae'r pêth felly) ond fe eill fôd yn gyfrgoll, yn annedwydd, ac yn druan, ac felly yn golleidg yn Dragywydd; fe ellir ei ddifeddiannu o'r

o'r Nefoedd honno o Ddedwyddwch a ddarparodd Duw iddo; o'i fwynhànt Ef, *Ger bron yr hwn y mae digonolrwydd Gorfoledd, ac ar Ddeheulaw yr hwn y mae llawenydd yn dragywydd*: Ac nid hynny yw'r cwbl ychwaith; fe a ddichon yr Enaid nid yn unig golli anfeſuredig, a diddiben wynfyd, ond hefyd Syrthio a ſyddo i ddyfnder eithaf Anobaith, a Thrueni, fe ellir ei draddodi a'i ddaroſtwng i ruthrau cynddeiriog-wyllt Cythreuliaid ac Yſprydion Cythreulig, a'i ſwrw i felldigedig Gyfeillach y creaduriaid annedwydd 'rheini a breſwyliant, lle nid oes dim ond lid, cenfigen, malais, a chynddaredd; a lle ni bydd byth na llawenydd, na heddwch, na chariad.

Mae'r Yſpryd Glân yn datcan Trueni y cyflwr ofnadwy hwn, a'r cyfryw ymmadroddion ac a arwyddoccànt y *Dychrynnedigaethau* gerwinaf a'r poenau echryſlonaf; megis *ffrwd o dàn a brwmſtan, Tàn tragywyddol, Pryf anſarwol, Tàn anniffodadwy*, &c.

Dyma'r cyflwr Dychrynadwy i'r hwn y bwrir Eneidiau, a Chyrph yr Annuwolion i'w coſpi yn Dragywydd; lle y bydd rhaid iddynt ddioddef ddydd a nôs yn ddidorr, ac yn ddiorphwys. O gyflwr Ofnadwy! a hyn hefyd i ychwanegu dirdra eu poenau ſef eu bôd heb derfyn na diben yn dragywydd: Fe fyddai ryw gyſſyr i'r Eneidiau truain hynny ped fae iddynt ryw obaith o ymwared, eithr y mae hyn yn Dirfawr-chwerwi eu hanguriol Boenau, ſef meddwl am barhâd Diddiben y Poenau i ddyfod, Gwedi eu coſpi a'u cyſtuddio tros Fyrdd Myrddiwn o oeſoedd yn Uffern, fôd iddynt drachefen Uffern dragywyddol o'u hol, a'u bôd cyn belled oddiwrth ddiben eu Trueni ag yr oeddynt yr awr gyntaf y dechreuodd

Mae hyn yn ddigon er ſuddo'r Adyn annedwydd i eithaf anobaith Anefgorol.

Yr ydym mewn mawr berygl o fyrthio i'r cyflwr hwn; a pha fodd y daethom i fod felly, yw'r pêth nefaf a erfyniaf arnoch ei yſtyried, a'ch ymddywn eich hunain yn gyfattebol i'r Yſtyriaeth hon.

Yn Drydydd. *Gan hynny yſtyriwch y mawr berygl y mae eich Eneidiau ynddo o herwydd pechod.*

" " Duw a greodd y Dyn cyntaf *Adda* yn ddi-
" bechod, ac a gynnyſgaeddodd ei Enaid êf â chyf-
" lawn wybodaeth o'i ddyled-ſwydd, ac a chyfryw
" rym a nerth ac a gallafei, pe mynnafei gyflawni
" yr hyn oll a orchmynnaſid iddo: Gwedi ei grëu ef
" fal hyn, efe a wnaeth Gyfammod neu gyttundeb
" ag ef ar y perwyl yma; os arhoſei êfe mewn
" ufudddod i Dduw heb bechu; yna, yn gyntaf per-
" ffaith rym yr Enaid (âr hwn yr oedd efe y pryd
" hynny yn gynnyſgaeddol) a Siccrheid iddo ef
" yn waſtadol; Ac yn ail ni byddei efe byth
" marw; eithr efe a gaearos mewn cyflwr o dded-
" wyddwch yn dragywyddol. Ond o'r tu arall
" os troſeddai ac anufuddhae efe i Dduw, yna y
" collae efe a'i holl heppil ar ei ôl, yr Wybod-
" aeth a'r Grym perffaith hynny y rhai a'i
" cynnorthwyant i gyflawni yr hyn oll yr oedd
" Duw yn ei ofyn ganddo; Ac yn ail, y gwneid
" ef yn ddaroſtyngedig i Farwolaeth; ac nid hynny
" yn unig, ond hefyd i ddamnedigaeth Dragy-
" wyddol yn Uffern.

" Dyma'r Cyttundeb a wnaethpwyd ag *Adda*,
" a holl ddynol ryw ynddo ef, (yr hwn a elwir
" yn gyffredinol y Cyfammod cyntaf:) ac ar hyn
" fe a roddes Duw i *Adda* Orchymmyn arbennig,

" yr

" yr hwn nid oedd ddim ychwaneg na hyn; ſef
" ymgadw o honaw rhag Bwytta o un pren (yn
" unig) o'r Ardd, yr hon y goſodaſid ef ynddi. Ond y
" dyn trwy hydoliaeth y Cythrael a fwyttaodd
" o'r pren hwnnw, ac a dorrodd orchymmyn Duw,
" ac felly a dynnodd y Felldith gyntaf honno ar
" ei Ben ei Hun a'i holl Hiliogaeth, ac felly
" hefyd trwy'r un pechod hwnnw efe a gollodd
" y gyflawn wybodaeth o'i Ddyledſwydd a'r gallu
" iw chyflawni, oedd gantho ar y cyntaf. A
" ninneu gan ein bôd yn Hanfod o'i Lwynau ef,
" a chwedi ein geni ynghyffelybiaeth ei Ddelw
" ef, ydym gyfranogion o'r un Golled; ac felly
" a wnaethpwyd yn anneallgar i ddirnad yr hyn
" a ddylaem ei wneuthur ac yn weiniad ac yn
" ddigynnorthwy i'w gyflawni; yr ym yn wrth-
" nyſig i wneuthur daioni, yn dueddol ac yn ba-
" rod i bôb Drygioni; megis Cyllau clwyfus
" y rhai a ffieiddiant bôb lluniaeth iachus, ac a
" flyſiant y cyfryw Sothach afiach, ac a waſanae-
" thant i faethu, neu gynnyddu'r Dolur.

Dyma ffynnon, a dechreuad, ein holl Drueni, ac oddiwrth hyn y mae'n digwydd ein bôd yr awr hon, mewn perygl aneirif Brofedigaethau oddiwrth y Byd a'r Cythrael a'n Nhaturiaeth lygredig ein hunain; yr ym barod, ac yn dueddol i wrando arnynt hwy, ac i bechu yn erbyn ein *Gwneuthurwr*; ac felly mewn gwaſtadol berygl o Syrthio i'r Cyflwr greſynol hwnnw am yr hwn y crybwyllais uchod. A hyn, yr wyf yn gobeithio, ſydd yr awr-hon yn ddigon i ddwyn ar ddeall i chwi ſôd eich Eneidiau mewn Cyflwr enbydus. Ond etto fel na eſgeuluſoch hwynt megis pethau heb ddim gobaith o honynt; eithr

yn

yn hytrach y cymeroch galon i ymosod o ddifrif i ofalu am danynt; Ystyriwch,

Yn Bedwerydd, Ragorol ragddarbodaeth a rhyfeddol Drugaredd Dduw yn darparu moddau iw rhyddhau a'u gwaredu o'r peryglon rhain; a phâ beth a ofynnir gennym ninnau er cyfatteb i'r ddirfawr Drugaredd hon. Hyn a wnaeth Duw trwy roddi i ni ei Fab, a gwneuthur ail *Gyfammod* â nyni ynddo êf, wedi i ni droseddu'r *cyntaf.*

" *Efe a roddes i ni ei Fab* megis *Pentywyfog ein* " *Hiechydwriaeth* i'n prynnu a'n gwaredu odditan " reolaeth a llywodraeth Satan; y Gwrth-ryfelwr " mawr hwnnw yn erbyn Duw; canys wedi i " Ddiafol wneu'd i ni ymadel oddiwrth Dduw " drwy bechod, efe a'n caethgludai wrth ei e- " wyllys, gan gymmell cynnifer, ac a eill eu dal tan " ei Faner, i ymladd yn erbyn eu Gwneuthurwr: " Ond Duw, meddaf, *a roddes i ni ei Fab* i'n " gwaredu a'n hadferu allan o'r cyfryw gyflwr " ofnadwy o bechod, gwrthryfelgarwch a thrueni.

" A hyn a wnaeth efe trwy wneuthur *ail Gyfam-* " *mod* â ni yn ei Fâb, gwedi torri o honom *y* " *Cyntaf*, hynny yw trwy gynnig i ni ammodau " grafusol o Gymmod er ei fwyn a thrwyddo êf, " yr hwn yw ein cadarn Gyfryngwr a'n Gwa- " redwr. A thrwy wneuthur bodlondeb i gyfiawn- " der Duw nid yn unig am droseddiad *y Cyfam-* " *mod Cyntaf* ond hefyd am bechodau pawb a " wîr edifarhaont am eu Camweddau tan yr *Ail.*

" Yr ail Cyfammod hwn a wnaethpwyd ag " *Adda*, ac a ninnau ynddo ef, yn ebrwydd ar ôl " ei Gwymp, ac a gynhwyfir yn grynno yn y geir- " iau hyn, *Gen.* 3. 15. Lle y mae Duw yn addaw " *Yr yfigei Hâdy Wraig Ben y Sarph*; a hwn, megis " y cyntaf, oedd yn cynwys ynddo rai Trugare-

ddau

" ddau a ganniatteid i ni gan Dduw, a rhai Dyledſwyddau iw
" cyflawni ar ein rhan ninneu.

" Y mae Duw yn y Cyfammod hwn, yn addaw anfon i'r byd ei
" unig Fab, yr hwn ſydd Dduw gogyfuwch ag êf ei hun, iw
" wneuthur yn Ddyn cyffelyb i ni ym hôb pêth ond pechod yn
" unig, ac i wneuthur troſom ni yr amryw bethau hyn.

" Yn gyntaf, I hyſpyſio i ni holl ewyllys ei Dad, trwy gyf-
" lawni pâ un y byddwn ſicer o fod yn gymmeradwy, ac o gael
" ein gwobrwyo, a ddo. A dyma un rhan o'i waſanaeth ef, yr
" hon a gyflawnodd ef, yn yr amryw Brégethau, yr Athraw-
" iaethau, a'r Cynghorion hynny a oſodir ar lawr yn yr Efeng-
" yl. Ac o blegyd hyn y mae efe yn Brophwyd i ni, gan mai
" Swydd Prophwyd gyn- yw oedd, nid yn unig rhagddywedyd
" pethau i ddyfod, ond athrawiaethu hefyd: ein Dyledſwydd
" ni o ran hynny yw dyſgu wrando arno, bôd yn gwbl-barod ac
" yn awyddys i ddyſcu ewyliys Duw gan iddo ef ddeſcyn o'r
" Nêf i'w ddadcuddio i ni.

" Yr ail pêth yr oedd efe i'w wneuthur erom ni, oedd bod-
" loni Duw am ein pechodau, nid yn unig am bechod *Adda*;
" ond hefyd am holl bechodau dynol ryw a wir edifarhaont ac
" a wellhaont eu bucheddau; ac felly pwrcaſu i ni faddeuant
" pechodau, fafr Duw, ac ymwared oddiwrth Uffern ac oddi-
" wrth Farnedigaeth Dragwyddol, yr hyn oedd y Goſpedi-
" gaeth ddyledys am ein Hanwireddau; hyn oll a wnaeth ef
" erom ni, trwy ei Farwolaeth: Efe a'i hoffrymmodd ei hun, yn
" Aberth tros Bechodau pawb, a ddwys-edifarhao o'u plegid
" ac a lwyr-ymadawo â hwynt. Ac o herwydd hyn y mae efe
" yn Offeiriad i ni, o blegid Swydd Offeiriad oedd, Aberthu tros
" bechodau'r Bobl. Ein d'ledſwydd ni o'r achos yma yw, yn
" gyntaf, gwir-ddifrifol edifarhau o herwydd ein pechodau, ac
" ymwrthod a hwynt, heb yr hyn ni chawn byth faddeuant
" am danynt er darfod i Grift farw. Yn Ail, credu yn ddiyſgog,
" os gwnawn ni hynny, y derbynniwn holl leſhâd a ffrwyth ei
" Aberth ef, y maddeuir i ni ein holl Bechodau er maint ac
" amled fyddont; ac y gwaredir ni rhag y Coſpedigaethau
" Tragywyddol, oedd ddyledus i ni o'u plegid. Rhan arall o
" ſwydd Offeiriad oedd, Bendithio'r Bobl a Gweddio troſtynt;
" hyn hefyd a gyflawna Chriſt erom ni. Ei Genadwri enwedi-
" gol ef oddiwrth ei Dâd oedd i'n bendithio ni, megis y dywed
" *St.* Pedr i ni *Act* 3. 26. *Anfonodd Duw ei Fâb Ieſu i'ch bendithio*,
" A'r geiriau a ganlynant ydynt yn dangos Sylwedd y Fendith
" honno, ſef *drwy droi pôb un o honoch ymaith oddiwrth eich dryg-*
" *ioni*: Ni a ddylem gyfrif y maddion hynny a arferodd ef

i'n

" i'n troi oddiwrth ein pechodau; yn fwyaf o'i holl Fendithion
" ef. Ac am y rhan arall o'i Swydd, ſef Gweddio, efe a wnaeth
" hynny nid yn unig ar y Ddaiar, ond y mae ef etto yn dyfal-
" barhau, i wneuthur yr un peth yn y Nêf: *Ymae ef yn eiſtedd*
" *ar ddeheulaw Duw ac yn eiſyn troſom ni*. Rhuf. 8. 34. Ein dled
" ni gan hynny yw; gochel gwrthwynebu ei Fendith anrhaeth-
" adwy hon, a bod yn ewyllyſgar i gael fal hyn ein bendi-
" thio, trwy ein hymchwelyd oddiwrth ein pechodau; a gwilio
" dirymmu a difuddio ei Weddiau a'i Gyfryngiadau troſom ni,
" canys ni thycciant ddim er lleſhâd i ni, trâ yr arhoſom ni yn
" ein Camweddau.

" Y Trydydd peth yr oedd Chriſt iw wneuthur erom, oedd
" ein cynnorthwyo, neu roddi nerth i ni, i wneuthur yr hyn y
" mae Duw yn ei orchymmyn i ni. Hyn y mae ef yn ei wneuthur;
" Yn gyntaf, trwy eſmwythau caethder a chaledwch y Gyfraith,
" a roddwyd i *Adda*; yr hon a waharddai hyd yn oed y pechod
" lleiaf tan boen Damnedigaeth: a chan ofyn gennym, yn unig,
" gydwybodus, ddiragrith ymegniad, i wneuthur yr hyn a allom,
" a chan dderbyn diffuant editeirwch lle y digwyddo i ni fod
" yn ddiffygiol. Yn Ail, trwy anfon ei Yſpryd Glân i'n Calon-
" nau i'n llywiaw a'n rheoli, i roddi nerth i ni, i wrthlâdd pro-
" fedigaethau i Bechu, ac i gyflawni yr hyn oll ſydd ddyledus
" arnom yr awr-hon tan yr Efengyl. Ac o blegid hyn y mae ef
" yn Frenin i ni, o herwydd ſwydd Brenin yw Llywodraethu a
" Rheoli; a gorchfygu Gelynion. Ein dyled ni gan hynny yw,
" ymroddi i fôd yn Ddeiliaid ufudd iddo ef, i'n llywodraethu a'n
" rheoli ganddo, gwilied taro ym hlaid nêb-rhyw Wrthry-
" felwr, hynny yw, gochel llochi neb-rhyw bechod; eithr
" gweddio yn ddyfal am ei *Rad* ef, i'n nherthu i orchfygu'r
" cwbl, ac yna cymmeryd gofal am iawn-arferu ei Râd i'r
" perwyl hwnnw.

" Yn Ddiweddaf, Fe a bwrcaſodd i'r ſawl oll yn ffyddlon a u-
" fuddhânt iddo, Exiſteddiaeth dragywyddol ogoneddus, ſêf
" Teyrnas Neſoedd; lle yr aeth ef o'n blaen i gymmeryd medd-
" iant troſom ni. Ein dledſwydd ni gan hynny yw, gwilied yn
" ofalus na chollom ein hawl ynddi. A diammeu y collwn, os
" arhoſwn yn ddidditeiriol mewn neb-rhyw bechod. Yn Ail,
" Gochel Sefydlu ein Deiſyfiadau ar y bydhwn, eithr eu der-
" chafu tuag i fyny yn ol cyngor yr Apoſtol, *Col.* 3. 2. *Rhoddwch*
" *eich ſerch a'r bethau ſydd uchod, nid ar bethau ar y Ddaiar*, gan
" hiraethu yn waſtadol, am ddyfod i feddiannu'n Hetifeddiaeth
" wynfydedig honno, ſydd yn perthyn i ni; mewn cyffelybiaeth

i ba

" i ba un ni ddylaem edrych ar y pethau yma iſod, ond megis " Sorod gwael, a ſothach dielw.

" Hyn yw ſylwedd yr ail Cyfammod, tan yr hwn yr ydym ni " yr awr-hon; lle y gwelwch pâ bethau a wnaeth Chriſt, pa " fodd y gwaſanaetha ef y Tair Swydd uchel hynny, ſef Swy- " ddau *Brenin, Offeiriad a Phrophwyd*; a pheth hefyd a ddiſgwi- " lir ar ein rhann ninnau, yr hyn oni chyflawnwn yn ffyddlon, ni " bydd y cwbl oll a wnaeth ef, ond anfuddiol a diles i ni; " canys ni bydd ef byth yn *Offeiriad* i achub neb, ond y ſawl " a'i cymerant ef yn gyſtal yn *Brophwyd* iw hathrawiaethu, ac yn " *Frenin* iw rheoli: nag ê, os eſgeuluſwn ni ein rhan o'r Cyſam- " mod hwn, fe a fydd ein cyflwr etto yn waeth, na phe buaſei " erioed heb ei wneuthur; canys fe a fydd rhaid i ni atteb nid yn " unig am droſeddu *Cyfraith*, megis yn y Cyfammod cyntaf, ond " hefyd am gamarfer *Trugaredd*, yr hwn o'r holl bechodau yw'r " cyffelypaf i annog Duw i ddirfawr Ddigofaint; O'r tu arall " os cyflawnwn ni ein rhan yn ffyddlon, hynny yw, os ymrown " yn ddiragrithi ufuddhau i holl Orchmynnion Chriſt, heb fyned " ymlaen yn ewyllyſgar mewn unrhyw Bechod, ond galaru " oblegid ein Camweddau, a chaſhau pôb un y buom euog o " honaw o'r blaen; yna yn ddiammeu mae Lleſhadau a Donniau " Chriſt a grybwyllwyd yn perthyn i ni. Chwi a welwch bellach " leied achos ſydd i chwi eſgeuluſo gofalu am eich Eneidiau, gan " feddwl eu bôd mewn cyflwr diobaith, canys y mae'n eglur nad " ydynt; nag e, maent yn ddiammeu yn yr unig gyflwr hwnnw, " yr hwn yn anad un, ſydd yn eu gwneuthur gymhwyſaf i ofalu " am danynt. Pe buaſei Grîſt heb eu Prynu hwynt, ni buaſei " mor gobaith o honynt, ac o herwydd hynny ni buaſei ond " gwaith ofer i ni edrych attynt: O'r tu arall, pe buaſei'r Prynne- " digaeth hwnnw, yn gyfryw ag y cawſai Dawb tôd yn gadwedig " trwyddo, er iddynt ſyw yn ôl eu hewyllys eu hunain; ni a " dybiaſem na buaſei ond afreidiol i ni gymmeryd gofal gyda " hwynt, canys hwy a fuaſent ddiogel heb hynny. Ond felly " y rhyngodd bodd gan Dduw dreſnu, mai'n gofalon ni a " fyddau'r moddion, trwy'r rai y derbynniau 'n Heneidiau " leſhâd, oddiwrth yr hyn oll a wnaeth Chriſt erddynt.

Yn awr, os dwys yſtyriwch y pethau hyn yn eich Calonnau; Yna Eich Rheſwm, a'ch Budd hefyd, a'ch hyſforddiant, pâ fodd i'ch ymddwyn eich hunain. Mi a dybygwn fy môd yn clywed ymbell un o honoch megis Rhai a ddwyſ-bigid ac a gynhyrfid wrth ſynnied y pethau hyn gan ofalu yn ddifrifol a thoſturio wrth eu Heneidiau, yn llefain yn grôch gyda gwrandawyr St. *Petr, Pa beth a wnawn er bod yn gadwedig.* Och Dduw! na bae

bôb

bôb Dyn yn *ymgynghori fel hyn ag ef ei hun!* Yr hyn onis gwnânt; y mae'n arwydd rhy ſicer o'u bôd yn credu, naill ai nad oes ganddynt Eneidiau anfarwol, ai bôd yn amhoſibl, iddynt byth dramgwyddo.

Rhowch gennad i mi, fy Nghymmydogion anwyl i ymreſymmu ychydig â chwychwi ar yr achos yma, fel y gallwyf eich cynhyrfu a'ch annog, i gymmeryd gofal am eich Eneidiau. A wnaethpwyd hwynt yn ol Delw a Chyffelybiaeth Duw? Pa ham gan hynny y gadewch iddynt ymffurfio yn ôl Eulun Satan? A ragddarparodd Duw Nefoedd o Ddedwyddwch iddynt? Pa ham y byddwch mor greulon, ac mor anghyfiawn wrthynt; a'u taflu hwynt i annioddefiadwy Fwrnau Uffern? Gan i Dduw, y Tâd eu priſio cyn uched a datcan ei ddirfawr ofal am danynt: Pa ham yr eſgeuluſwch, ac y dibriſiwch chwi hwynt; megis pethau ni thalant ddim? ie, ni thybiai *Duw y Mâb* ei Waed *ei hun*, yn ormod taledigaeth am danynt; Pa-ham y chwenychwch chwi eu gwerthu hwynt am ofer-Wagedd y Byd hwn. Gan fôd *Duw, yr Yſpryd Glân* beunydd yn llafurio er eu cadwedigaeth; Bêth ſydd yn peri i chwi feddwl mai prin yr haeddant y lleiaf o'ch gofalon? Gan fôd yr *Angylion* bendigedig yn Weinidogion gwaſanaethgar iddynt; Pa ham y difwynwch chwi ac y rhwyſtrwch eu holl ymegnion, a ymcenir er daioni i chwi? Gan eu bôd yn gorfoleddu, o herwydd Ymchweliad a Thröedigaeth Eneidiau; Paham y gommeddwch iddynt yr achos yma ô lawenydd, pan yw'r bydd a'r lleſhâd mwyaf, yn digwydd i chwi eich hunain? Pâham y ceiſiwch fodloni ein Gelyn ni oll, y Cythrael, cyn belled, a gadel iddo wradwyddo a diddymmu graſuſol Amcannion Duw tuag attom? Oh! pâ fôdd y mae Pobl mor anyſtyriol ac mor ddigydwybod, ac edrych ar eu Heneidiau yn ſyrthio i golledigaeth dragywyddol; heb unwaith doſturio wrthynt? pâ fôdd y mae'nt yn treulio eu hamſer o ddydd i ddydd, heb unwaith geiſio, ie, heb gymmaint a chynnig eu hachub.

Yſtyriwch y bydd rhaid i chwi gael maddeuant, nid yn unig am bechod cynhwynol eich Rhieni cyntaf, ond hefyd am aneirif ô bechodau gwneuthurol, a wnaethoch chwi eich hunain, a hynny ondodid yn erbyn goleuni eich Cydwybodau, yn erbyn datcuddiedig orchymmynion Duw, yn erbyn cyhoeddiadau'r Yſpryd Glân; yn erbyn mynych Rybuddiadau a Chynghorrion gan eraill, yn erbyn amryw Addunedau a Llawnfwriadau o'r eiddoch eich hunain. Dyma achwynion trymmion, digon er ſuddo Enaid i'r Pwll Diwaelod; Ond etto y mae gobaith; mae ymwared iw gael i'r cyfryw Bechaduriaid hefyd, os hwy a edi-

farhânt

farhânt ac a ymchwelant oddiwrth eu Pechodau, ac a ymroant yn ddiragrith i fod yn ufudd i Gyfreithiau a Deddfau Duw. Os cymmerant yr Arglwydd Ieſu yn Frenin, yn Offeiriad ac yn Brophwyd iddynt, Duw er ei fwyn ef a'u derbyn nhwythau; *Coſiwch nad â phethau llygredig megis Arian neu Aur i'ch prynnwyd eithr a gwerthfawr Waed Chriſt megis Oen difeus a difrycheulyd*, 1 Pet. 1. 18. 19. Dyma'r prydwerth Eneidiau a ofynnodd Duw, ac os gwrthodwch hwn, ni chymmer ef yr un arall. A Duw a ſarna eich bôd yn ei wrthod, oni chymmerwch ef dan yr ammodau y mae ef ei hûn yn eu cynnig; oni ymrowch yn hollawl i Ghriſt, i'ch hyfforddio a'ch llywodraethu, yn gyſtal ac i'ch achub chwi; yr ydych yn ymwrthod a'ch cyfraith ac a'ch hawl yn ei Waed êf; ac megis yn cyhoedd-ddatcan na bydd-wch chwi rwymmedig iddo: Ac yna yn ddiammeu, nid ellwch achwyn fôd Duw yn Anrhugarog, os deil efe chwi ar eich geiriau: os efe a gymmer y fforffeid, ac a euog-farna y ſawl ni fynnant eu cadw ganddo. Addewidion, a *Bygythion'r* Efengyl, a'r holl Foddion eraill, a arferodd Duw er gwellhau, ac adgyweirio Pechaduriaid; a'u galw i Edifeirwch, ydynt Arwyddion o'i ddaioni a'i gariad ef tuag attom, ac o'i ofal am ein Dedwydd-wch; ac os parhawn ni yn waſtadol iw gwrthod, ac iw dibriſio, Oh! mor gyfion ac mor echryſlon a fydd ein Damnedigaeth! A gymmerodd ef ofal anfeidrol er goſod rhwymedigaeth arnoch chwi i fôd yn garedig i chwi eich hunain, ac i ffyddlon-geiſio eich gwîr Ddedwyddwch, ac a wrthodwch chwithau er hynny y Trugareddau a berthynant i chwi? Os ceiſiwch fel hyn yn ewyllyſgar eich difetha eich hunain, mor gyfiawn y gall Duw dywallt arnoch eithaf creulondeb ei Goſpedigaethau!

Gadewch i mi gan hynny ddeiſyf arnoch, er mwyn pôb pêth ſydd Sanctaidd, a Phwyſfawr, er mwyn pôb peth ſydd Anwyl a Gwerthfawr gennych, er mwyn goreuon eich Gobaith, er mwyn eich Cyflwr a'ch Tynghedfen dragywyddol, teſturiwch wrth eich Eneidiau truain: yſtyriwch y Peryglon y mae'nt yn-ddynt, ymgynghorwch ynghylch y Moddion i'w Hachub, a bydded eich Ymarweddiad yn gyfattebol iddynt.

Dyſcwch er mwyn Duw, gynhyrfu eich Calonnau i ddifrifol yſtyried eich Cyflwr enbydus i wiredifarhau am eich Pechodau a aethant heibio, ac i fwriadu yn ddiragrith bôd yn fwy Sanctaidd, yn fwy Gwiliadwrus a Gofalus rhag llaw: Gweddi-wch yn ddifrifol am Radau Glan Yſpryd Duw, Maethwch yn eich Eneidiau Ffydd fywiol yn Hrugareddau Duw trwy Griſt, ac ymhôb môddion megis y cynnorthwyo Duw chwi, ac i'ch hathrawiaether o amſer i amſer o hyn allan, bydded eich

Gweddiau

Gweddiau a'ch Ymegnion, ar fôd o honoch yn Ddoethion i Iechydwriaeth. Duw a'ch lluoſogo a phôb Yſprydol Ddoethineb, a Dealltwriaeth, ac a'ch derbynnio yn gymmeradwy yn Nydd mawr y Farn i ddyfod, megis Gweiſion ffyddlon i Dduw a'n Harglwydd Ieſu Griſt, yr hyn yw difrifol Weddi, ac byth a fydd dyſal Egni.

Eich Caredig Waſanaethwr

yng Chriſt Ieſu.

Y DIWEDD.

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU